

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Mrs Susannah Williams (Llansannan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn codwm a thorri ei chlun. Cyflwynwn hi, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd a gweddiwn y byddant oll yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mrs Mair Roberts (Yr Hen Ficerdy); Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Miss W J Roberts, Mrs Menna Owen a Mrs Annie Griffiths (Yr Hen Ddeondy); a Mrs Morfydd Williams (Southern House). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn.
- Llonyfarchiadau calonnog i Elwyn a Barbara Williams (Henllan) ar achlysur datlu 6o mlynedd o fywyd priodasol.

Ieuentid 15+

Dymunwn wybod faint o ddiddordeb fyddai gan ieuentid 15+ i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac os byddan nhw'n awyddus i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol, gallwn edrych ar sesiynau ychwanegol wedi hynny. Cysylltwch ag Aneurin, Rhodri neu Mair os oes gennych ddiddordeb.

I ddod

- **Penwythnos Ieuentid** Tachwedd 9fed – 11eg yng Ngholeg y Bala. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch yn fuan â'r Coleg gan fod llefydd yn llenwi yn sydyn. Mae Eglwys Bro Aled yn cynnig gostyngiad o £10 i bob person ifanc o'r Ofalaeth fydd yn mynychu'r penwythnos. I archebu lle a chael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r Coleg: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk
- **Hyfforddiant Efengylu** gyda Roger Carswell yng Ngholeg y Bala, Tachwedd 30ain – Rhagfyr 1af. Croeso i ieuentid 15+ ac oedolion o bob oed. Am fwy o wybodaeth ac i archebu lle, cysylltwch â'r Coleg: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 28^{ain} Hydref 2012

Cofiwch am yr Oedfa Arbennig i'r
Fro heno am 6.00 pryd y cawn
gwmni Meirion a Sarah Morris.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da, a chroeso cynnes iawn i bob un ohonoch i'n hoedfaon heddiw! Diolchwn unwaith yn rhagor am gyfle o'r newydd i geisio Duw gyda'n gilydd gan wybod nad oes terfyn ar Ei gariad, ac yn sicr na phalla ei dosturiaethau - y maent yn newydd bob bore! (Galarnad 3:22-23)

Gan fod Gwenno yn dathlu ei phen-blwydd dydd Sul diwethaf, cawsom ddiwrnod diddorol yn ymweld â chanolfan siopa Trafford Centre ym Manceinion ddydd Llun. Gan nad oeddwn erioed wedi bod yno, cefais dipyn o agoriad llygaid wrth weld maint aruthrol y ganolfan, a chymaint o siopau gwahanol oedd yno – tybed pam fod angen cymaint o wahanol fathau o siopau dillad merched?! Wedi cyrraedd, awgrymodd Gwenno y byddai'n syniad da i ni gychwyn gwneud ychydig o'n siopa ar gyfer y Nadolig tra'r oeddem yno (trefnus iawn!), ac felly y bu. Wrth geisio meddwl beth i'w gael i wahanol bobl, roedd hi'n llawer haws dychmygu beth fyddai wrth fodd y bobl hynny yr wyf yn eu hadnabod yn dda ac yn treulio llawer o amser yn eu cwmni na'r cyfeillion hynny nad wyf yn eu gweld mor aml â hynny. Yn yr un ffordd, roedd hi hefyd yn haws penderfynu beth na fyddai'n plesio rhai ffrindiau a theulu gan fy mod yn eu hadnabod yn arbennig o dda.

Wrth ystyried hynny, mae'n debyg fod yr un peth yn wir i ninnau fel Cristnogion yn ein bywydau wrth i ni wneud penderfyniadau a thyfu yn ein ffydd. Wrth i ni ddod i adnabod ein Harglwydd yn bersonol, daw'n haws i ninnau wybod beth sydd wrth Ei fodd, a beth sydd yn Ei dristáu. Er bod sefyllfaoedd yn codi sy'n gallu gwneud i ni bendroni ynglŷn â'r ffordd iawn i ymateb, nid yn unig mae gennym arweiniad Gair Duw i'n cynorthwyo, ond trwy ffydd y mae gennym hefyd bresenoldeb Duw ynom yn Ei Ysbryd Glân. Oherwydd hynny, wrth i ni roi mwy a mwy o le i Dduw weithio ar ein calonnau, ein meddyliau a'n cymhellion, down i adnabod Crist yn well ac fe fydd ein dyhead i'w ddilyn mewn ufudd-dod yn cynyddu. Felly os ydym am wybod sut i fyw bywydau sydd wrth fodd Duw, ateb clir y Beibl yw perthyn i'r Gwardwr a glynu ato, derbyn Ei ras a'i gariad trwy gredu ynddo, diolch iddo am ein hachub ar Galfaria, a cherdded trwy'n bywydau gydag Ef. Fel y dywedodd Colosiaid 2:6 ' Felly, gan eich bod wedi derbyn Crist Iesu yn Arglwydd, dylech fyw ynddo Ef.'

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, ac edrychwn ymlaen i groesawu Meirion a Sarah Morris i'n plith. Cawn glywed dipyn o'u hanes ers iddynt adael y Fro ac am daith Sarah i'r India, cyn y bydd Meirion yn agor y Gair inni. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf • **Cyfarfod Gweddi dros y Rhaglen Dorcas** yn y Granar, Llansannan am 4.00.
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Llun Bydd Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch yn Festri Cefn Meiriadog o 7.00 ymlaen. Bydd yn gyfarfod gweddi agored, anffurfiol, felly dewch o'r ieuengaf i'r hynaf i gyflwyno beth bynnag yw'r diolch sydd ar eich calonnau – yn ddarlleniadau, astudiaethau/myfyrdodau/cyflwyniadau ppt, emynau a gweddiâu.
- Mawrth Oedfaon Diolchgarwch Cefn Meiriadog - Bydd Gwasanaeth Teuluol am 2.00, a gwasanaeth yr hwyr am 7.00 gyda'r Parch. Tom Williams, Henllan yn arwain. Bydd cyfle i roi rhoddion tuag at Fanc Bwyd Dinbych. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd y Parch Hywel Edwards yn arwain oedfa yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain Oedfa Ddiolchgarwch i'r oedolion **am 10.30** a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn dilyn yr oedfa, bydd cinio tri chwrs (!) yn y Festri gyda'r elw yn mynd i Apêl Guatemala. Pris: Oedolion £10.00, plant uwchradd £5.00, plant cynradd £2.00.
- Mercher Cynhelir Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch o dan arweiniad yr ifanc yn y Festri am 7.30. Croeso i bawb.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant am 10.00 a bydd Aneurin yn rhoi anerchiad i ddilyn. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain Oedfa Ddiolchgarwch yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Iau Bydd Cymdeithas Llanefydd yn cyfarfod yn y capel am 7.00 i gael 'Cawl, tarten a chwis'. Enwau erbyn nos Fawrth, os gwelwch yn dda, i Rhian Ivy House neu Manon Bryn Deunydd. Bydd yno hefyd stonid yn gwerthu nwyddau Masnach Deg gan gynnwys rhai Nadoligaidd.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau